

# 5. Y Pot Blodau

Mae'r stori wedi'i thargedu at blant o dan 11 oed a'r testun Beiblaidd a'r neges tuag at lasoed a hŷn.

Gweddi  
agoriadol: O Dduw, diolch i ti am ddod â ni at ein gilydd, am y Nadolig, ac am gael dathlu geni Iesu Grist i'r byd. Gwna i ni weld yr ŵyl o'r newydd eleni a diolch i ti am anfon dy fab i'r byd aton ni. Bydd gyda ni wrth i ni addoli dy enw di. Amen.

Carol: 'Sêr y nos yn gwenu', *Clychau'r Nadolig*.

Cyd-ddarllen: Salm 8

Cyflwyniad: Tybed fuoch chi'n gwylio'r ffilm *Treasure Island* ar y teledu? Stori ydi hi am Jim Hawkins yn hwylio ar yr *Hispaniola* efo Sgweier Trelawney i chwilio am drysor oedd wedi ei guddio gan fôr-ladron. Os gwelsoch chi'r ffilm mi fyddwch yn siŵr o gofio am Long John Silver, a'i het driongl, clwt dros ei lygad, coes bren a magl, a'r parot hwnnw sy'n clebran 'pieces of eight' yn ddiddiwedd. Mi fyddwn i wrth fy modd yn cael mynd i edrych am drysor yr un fath â Jim Hawkins.

Chwilio am drysor oedd gwaith teulu Rhian a Rhodri hefyd. Ond nid trysor ar ynys bell ond 'hen bethau' fel y gwelwch chi mewn siop ail-law yn y dref. Y man gorau i gael gafael ar rywbeth gwerthfawr yw mewn arwerthiant neu hwyrach weithiau yng nghroglofft rhyw hen adeilad. Mi fyddech chi'n synnu cymaint o bethau mae pobl yn eu cadw o'r neilltu heb wybod eu gwerth.

Un diwrnod, daeth cwmni mawr o arwerthwyr hen bethau i'r dref i gynnal diwrnod prisio. Roedd yn gyfle i unrhyw un fynd ag unrhyw 'hen beth' a chael gwybod yn union beth oedd ei werth a hynny yn rhad ac am ddim.

## DEIALOG

Rhian: Mam, beth am fynd â rhai o'n pethau ni yno i ni gael gwybod a oes gennyn ni drysor?

Mam: [*Gan chwerrthin*] Syniad da!

Rhodri: A beth am fynd â'r hen botyn mawr sydd wrth y drws yn dal ffyn ac ambarelau?

Tad: Be, yr un gawson ni ar ôl Anti Lisi? Twt lol, waeth i ni heb â mynd ag o, efo crac ynddo, mi fydd pawb yn chwerrthin am ein pennau.

Llefarydd: Ond cytunodd y tad wedi iddo weld y potyn wedi ei olchi'n lân ac yn edrych yn reit ddel nes bod posib gweld bod arno flodau glas ar gefndir gwyn.

Wedi cyrraedd y neuadd yn y dre, roedd y lle yn llawn at y drws. Yma ac acw roedd gwahanol briswyr yn eistedd wrth fyrddau. Un yn trin potiau, un arall ddarluniau, un arall dameidiau o hen flychau ac ati. Pawb eisiau gwybod a oedd y peth oedd ganddyn nhw yn drysor neu beidio.

Ychydig iawn o ddiddordeb oedd y gŵr ifanc wrth fwrdd y potiau yn ei ddangos. Hyd yn hyn nid oedd neb wedi dangos dim iddo oedd yn werth arian mawr. Pan ddaeth tro teulu Rhian a Rhodri, sionciodd drwyddo. Sylwodd ar y fâs fawr a'i harchwilio'n ofalus.

Prisiwr: Mmm, biti, biti am y crac. A fyddech chi'n gadael i mi fynd â hwn yn ôl i Lundain er mwyn i ni gael edrych yn fwy manwl arno. Fe allai fod yn werth tipyn o arian.

Mam: Cewch, wrth gwrs, be ydach chi'n feddwl ydi o?

Prisiwr: Gwell i mi beidio â dweud dim ar hyn o bryd, rhowch ryw wythnos i mi.

Rhodri: Iypi, mae gennym ni drysor.

Llefarydd: Ymhen rhyw ddeng diwrnod fe glywodd y teulu fod y fâs wedi ei phrisio gan arbenigwr. Fâs o Tseina oedd hi, o amser teulu brenhinol y Ming. Roedd dros bedwar can mlwydd oed, ac yn werth o leiaf £12,000, er bod crac ynddi. Cafodd ei gwerthu yn nes ymlaen mewn ocsiwn arbennig yn Llundain ac fe dalodd dyn o'r America £13,000 amdani.

Rhian: Jest meddyliwch, roedd trysor yn ein tŷ ni a ninnau ddim yn gwybod.

Rhodri: Lle rhyfedd i gadw ffyn ac ambarél.

Darlleniad: Mathew 2:1-11

Llefarydd: Byddai llawer wrth eu bodd yn cael gafael ar y trysor heddiw a chael cyfle i'w gyfarfod. Un ffordd o gyfarfod â Iesu yw darllen ei eiriau yn y Testament Newydd. Ond fe ddywedodd o y gallwn ei gyfarfod yn y bobl sydd o'n cwmpas, ac yn enwedig yn y rhai sy'n cael eu gwrthod gan eraill.

Darlleniad: Mathew 25:31-46

Gweddi: Ein Tad, rydym mor brysur yn edrych am hapusrwydd yn y pethau sydd ddim gennym ni nes ein bod yn methu gweld trysor yn y pethau sydd wrth ein traed. Rydan ni mor aml yn chwilio ymysg yr 'hen bethau' sy'n perthyn i'n traddodiad a methu â gweld dy fod ti yng nghanol ein pethau pob dydd, ac yn enwedig gyda'r rhai sydd eisiau help mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Maddau i ni am fod mor ffôl a helpa ni i dy ddarganfod; y trysor sydd o fewn ein cyrraedd.

Carol: 'Deffro! Deffro!', *Clychau'r Nadolig*.

## DIWEDD